# Trosolwg o Broses Asesu ASA

Pan fo rhywun yn cael asesiad awtistiaeth, mae'r aseswyr yn edrych am wybodaeth a all eu helpu i benderfynu os yw'r unigolyn yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer diagnosis o awtistiaeth. Y meini prawf hyn (yn ôl Llawlyfr Diagnostig ac Ystadegol neu'r Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau) yw:

Anawsterau gyda **Chyfathrebu Cymdeithasol a Rhyngweithio**. Gall y rhain gynnwys anawsterau wrth gael sgyrsiau, neu wrth ddeall cyfathrebu di-eiriau neu ddatblygu neu ddeall perthnasoedd.

**Patrymau Ymddygiad, Diddordebau neu Weithgareddau Cyfyngedig, Ailadroddus** Gall hyn gynnwys iaith ailadroddus, anhawster gyda newid, diddordebau arbennig neu benodol neu broblemau synhwyraidd.

Er mwyn cynnal yr asesiad yn effeithiol, mae angen i'r clinigydd gasglu llawer o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am blentyndod yr unigolyn. Byddant yn edrych am enghreifftiau o ymddygiad sy'n dangos anhawster yr unigolyn yn y meysydd uchod.

Fel rhan o'r asesiad, efallai y byddwch yn cael holiadur i'w lenwi am eich plentyn/aelod o'r teulu. Mae hwn yn cynnwys llawer o gwestiynau amdanynt, y dylech geisio eu hateb gyda chymaint o wybodaeth â phosib, gan ddefnyddio enghreifftiau clir. Un peth y dylech fod yn ymwybodol ohono yw y bydd y rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar anawsterau neu broblemau'r unigolyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r ffordd mae awtistiaeth (a niwrowahaniaethau eraill megis ADHD, Dyslecsia) yn cael eu gweld yn gynyddol, fel gwahaniaeth ac nid anhwylder. Felly efallai y byddwch yn ei chael yn anodd canolbwyntio ar agweddau negyddol ar ymddygiad un o'ch anwyliaid. Yn anffodus, mae'r meini prawf diagnostig ar gyfer awtistiaeth yn seiliedig ar anawsterau'r unigolyn ac nid eu cryfderau, felly mae'r asesydd/clinigydd yn edrych yn bennaf am y math hwn o wybodaeth.

(os mai plentyn yw'r sawl sy'n cael ei asesu, efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol o sefyllfaoedd eraill y mae'r plentyn ynddynt fel arfer. Gallai hyn olygu arsylwi ar y plentyn yn yr ysgol, ond os nad yw'r plentyn yn yr ysgol, yna gallai olygu arsylwi arnynt yn ystod gweithgareddau cymdeithasol neu seibiant. Y rheswm dros edrych ar sut mae'r plentyn yn ymddwyn mewn gwahanol amgylchedd yw mai rhan o'r diagnosis awtistiaeth yw bod angen i'r unigolyn ddangos anawsterau mewn gwahanol amgylchedd (nid dim ond yn y cartref, neu ddim ond yn yr ysgol). Os ydynt yn ei chael yn anodd mewn un amgylchedd yn unig, gallai fod rheswm gwahanol dros eu hymddygiad.

Ni fydd yr asesydd yn gallu gwneud diagnosis yn seiliedig ar y cwestiynau hyn yn unig, bydd rhaid iddynt hefyd gyfarfod gyda'r unigolyn. Fodd bynnag, bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn rhoi sail dda iawn iddynt gynnal gweddill y broses asesu.

Cynhelir rhan nesaf y broses wyneb yn wyneb a gallai olygu mwy nag un cyfarfod gyda mwy nag un gweithiwr proffesiynol. Gall yr asesiad llawn gymryd hyd at 5 awr, ond gall asesiadau cymhleth gymryd mwy na hyn. Bydd yn golygu gofyn llawer o gwestiynau iddynt, a fydd yn debyg i'r rhai yn yr holiadur. Gall hyn deimlo fel eich bod yn gorfod ailadrodd eich hun, ond gall hyn fod yn bwysig i'r clinigydd gael cymaint o wybodaeth â phosib. Efallai hefyd y gofynnir i'r unigolyn wneud tasgau syml, mae'r rhain fel arfer er mwyn i'r aseswyr gael cyfle i arsylwi ar ymddygiad o ddiddordeb wrth asesu ar gyfer awtistiaeth. Weithiau mae angen nifer o ddulliau asesu, i gael darlun mor gyflawn â phosib. Mae'r cwestiynau a thasgau asesu wedi eu safoni, sy'n helpu i sicrhau fod y broses asesu ddiagnostig yr un fath ym mhob man.

Ar ôl cwblhau'r broses asesu, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn cael ei hystyried gan yr aseswyr ac efallai gan dîm ehangach o bobl, i benderfynu os yw'r unigolyn wedi cyrraedd y meini prawf ar gyfer diagnosis. Mae'n bwysig cofio bod gan nifer o bobl nodweddion/ymddygiad sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth er nad ydynt yn awtistig, felly mae'n hanfodol paratoi at glywed efallai na fydd canlyniad yr asesiad yn ddiagnosis o awtistiaeth. Rhoddir y canlyniad fel arfer un ai wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn. Weithiau efallai y byddwch yn cael gwybod y canlyniad mewn llythyr. Darperir adroddiad yn nodi'r broses asesu a'r canlyniad.